OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 559

# Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011

## RHAN 3

Gweithgareddau y mae erthygl 4 (esemptio rhag yr angen am drwydded forol) yn gymwys iddynt ac amodau

### Offer gwyddonol etc

**16.**—(1) Mae erthygl 4 yn gymwys i—

(a) dyddodi unrhyw offer gwyddonol neu gyfarpar cysylltiedig mewn perthynas ag unrhyw arbrawf neu arolwg gwyddonol;

(b) dyddodi unrhyw ymweithredydd;

(c) dyddodi unrhyw olrheinydd;

(ch) gweithgaredd symud a gynhelir at y diben o symud unrhyw offeryn gwyddonol neu gyfarpar cysylltiedig y cyfeirir ato yn is-baragraff (a).

(2) Mae is-baragraffau (b) ac (c) o baragraff (1) yn ddarostyngedig i amodau 1 a 2.

(3) Amod 1 yw fod rhaid i'r ymweithredydd neu'r olrheinydd fod, ar y pryd, yn un a gymeradwyir gan yr awdurdod trwyddedu at ddibenion y Gorchymyn hwn.

(4) Amod 2 yw fod rhaid defnyddio'r ymweithredydd neu'r olrheinydd yn unol ag unrhyw amodau y mae'r gymeradwyaeth yn ddarostyngedig iddynt.

(5) Ond nid yw erthygl 4 yn gymwys i—

(a) unrhyw ddyddodiad o'r fath a wneir at y diben o waredu;

(b) unrhyw ddyddodiad o'r fath sy'n achosi neu'n debygol o achosi rhwystr neu berygl i fordwyo;

(c) unrhyw ddyddodiad neu weithgaredd symud o'r fath—

(i) sy'n dod o fewn is-baragraff (a) neu (b) o baragraff (6); a

(ii) nad yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â, nac yn angenrheidiol ar gyfer, rheolaeth y safle neu'r parth (yn ôl fel y digwydd) y cyfeirir ato yn yr is-baragraff hwnnw.

(6) Mae dyddodiad yn dod o fewn y paragraff hwn–

(a) os yw'n gynllun neu brosiect sy'n debygol (naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill) o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd; neu

(b) os yw'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ramsar.

(7) Yn is-baragraffau (a) a (b) o baragraff (6), mae i "tebygol" yr ystyr sydd i "likely" yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt(**1**).

(**1**) OJ Rhif L 206, 22.7.1992, t.7, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2006/105/EC (OJ Rhif L 363, 20.12.2006, t.368).